Eitem 5 ar yr Agenda **26 Tachwedd 2010** **WNC 31.10**

ADRODDIAD CYFARFOD Y PANEL CYNGHORI AR Y STRATEGAETH COETIROEDD AR 19 a 20 HYDREF

Amcan

1. Cyflwyno diweddariad ar faterion busnes WSAP a materion eraill o ddiddordeb i'r Pwyllgor Cenedlaethol.

Adroddiad

2. Canolbwynt cyfarfod y diwrnod cyntaf oedd thema Coetiroedd i Bobl, sef *Coetiroedd i Gymru*, ac yn benodol rôl coetiroedd fel arf adfywio ardal Blaenau'r Cymoedd.

3. Cafwyd tri chyflwyniad a ddarparodd gefndir defnyddiol ar gyfer ymweliadau maes. Esboniodd Russell De'Ath o Bartneriaeth Blaenau'r Cymoedd bod y themâu adfywio yn cynnwys addysg, hyfforddiant, creu swyddi, gwella iechyd ac annog economi carbon isel. Pwysleisiodd fod gan yr amgylchedd rôl hanfodol i'w chwarae yn y gweithgareddau hyn. Mae gan y Bartneriaeth rôl ganolog mewn sicrhau bod gwahanol asiantaethau (gan gynnwys CCC) yn cydweithio i gyflawni amcanion strategol y prosiect. Esboniodd David Llewellyn mai nod Parc Rhanbarthol y Cymoedd, sy'n ymestyn y tu hwnt i ardal Blaenau'r Cymoedd, yw hyrwyddo adfywiad drwy weithgareddau amgylcheddol, treftadaeth a thwristiaeth. Amlinellodd Aaron Fortt (CCC) brif nodweddion cynllun coetir Blaenau'r Cymoedd. Roedd y gweithgareddau yn canolbwyntio ar y gweithgareddau canlynol:

   - gwella'r coetiroedd sydd eisoes yn bodoli;
   - creu coetiroedd newydd;
   - mynd i'r afael â phroblemau coed trefol;
   - cynhyrchu tanwydd coed a chadwyni cyflenwi;
   - twristiaeth a gweithgaredd awyr agored.
   - esboniodd y broses o ran dod o hyd i'r 13 safle blaenoriaeth cyntaf ar gyfer y gweithgareddau hyn.

Ymweliadau maes

4. Coetir Cymunedol Cwm Celyn (Alun Lewis a'i gydweithwyr). Mae Cymdeithas Tenantiaid a Thrigolion Cwm Celyn yn arwain datblygiad y coetir cymunedol hwn, ynghyd â CCC, yn dilyn cwymp rhan o'r blanhigfa oherwydd gwyntoedd yn yr 1990au. Crëwyd llwybrau newydd sy'n gwella mynediad i'r gymuned. Mae'r prosiect wedi cynhyrchu cyhoeddusrwydd a deunydd deongliadol, gosod nodwyr llwybrau a meinciau yn eu lle, cynnwys ysgolion lleol a grwpiau ieuenctid mewn prosiectau sy'n gysylltiedig â choetiroedd a'u nod yn gyffredinol yw annog mwy i ddefnyddio'r coetir. Ymhlith y materion a godwyd mewn trafodaethau roedd:

- parhau i gynnwys ymrwymiad lleol yn y tymor hir. Pwy fydd yn camu i esgidiau'r rhai brwdfrydig presennol?
- Perchenogaeth – roedd y cynrychiolwyr lleol yn ffafrio parhad perchenogaeth gan CCC;
- effaith coetir ar brisiau tai lleol a buddsoddiad mewnol.

5. Coetir Cymunedol Rhosheyworth (Chris Engel a'i gydweithwyr). Datblygwyd y coetir cymysg hwn ar dir diwydiannol diraddedig ac mae gyferbyn â datblygiad tai modern. Yn ogystal â phlannu coed roedd gwaith y prosiect yn cynnwys adeiladu llwybrau coetir, gosod byrddau picnic a seddi, ac adeiladu amffitheatr i'w ddefnyddio fel ystafell ddosbarth awyr agored. Erbyn hyn, defnyddir yr ardal ar gyfer ystod o weithgareddau cymunedol. Ymhlith y materion a godwyd mewn trafodaethau roedd:

   - adennill tir – dulliau a phroblemau;
   - estyn y coetir;
   - cysylltiadau â rhannau eraill o Lwybr Ebbw Fach.

6. Llynnoedd Cwmtyleri (Chris Engel a'i gydweithwyr). Hen bwll bwydo glofa Cwmtyleri oedd y llyn isaf a chafodd ei drawsnewid erbyn hyn yn ardal hamdden ddeniadol. Ymhlith y materion a drafodwyd roedd:

   - effaith gwelliannau amgylcheddol ar brisiau eiddo lleol;
   - creu coetir ychwanegol ar dir o amgylch;
   - gwaredu rhedyn ac ansawdd dŵr.

7. Cofeb Lowyr Chwe Chloch (Aaron Fortt a'i gydweithwyr). Mae'r gofeb yn cynnig safle ffafriol ardderchog o ran coetiroedd y cwm. Ymhlith y materion a drafodwyd roedd:

   - defnyddio coetiroedd ar gyfer darparu tanwydd ar gyfer cymunedau lleol – mynediad at goetiroedd ac echdynnu coed, defnyddio contractwyr lleol, datblygu cadwyni cyflenwi, mathau o ddefnydd ar gyfer tanwydd e.e. gwresogi ardal;
   - defnyddio coetiroedd ar gyfer hamdden.

Cyfarfod busnes ar yr ail ddiwrnod

8. Cafwyd cyflwyniadau ynglŷn â datblygiadau diweddar gyda:

   - Adolygiad LlCC ar gyrff amgylcheddol;
   - Y Fframwaith Amgylchedd Naturiol (NEF);
   - Glastir;
   - Mesuriadau diweddar sy'n atal trwyddedi cwympo ar gyfer llarwydd.

9. Roedd trafodaethau'r panel yn canolbwyntio ar (*Cymru Fyw)* y Fframwaith Amgylchedd Naturiol, ac yn benodol ei berthynas â *Choetiroedd i Gymru.* Codwyd y pwyntiau canlynol gan aelodau:

    - mae materion cefn gwlad yn swyddogaethau gymharol fach o ran Asiantaeth yr Amgylchedd;
    - mae'n ymddangos bod diffyg difrifol o ran ymglymiad y sector breifat a rhan-ddeiliaid mewn llunio'r ddogfen;
    - bydd systemau cyfreithiol a rheoleiddio yn rhwystrau difrifol rhag cyfuno'r tri chorff;
    - does dim sôn am y dylanwadau gwyddonol a thechnolegol sy'n gynsail i'r cynigion;
    - mae'n ymddangos yr anwybyddwyd ystyriaethau'r farchnad;
    - mae'r ddogfen yn codi nifer o gwestiynau ond prin yn cynnig atebion iddynt.

Cynllun Rheoli Niwbwrch

10. Mynychais gyfarfod Partneriaeth Gyswllt Niwbwrch ar 21 Hydref. Cafodd y cynllun drafft dderbyniad da gan y trigolion lleol a oedd yn bresennol a chroesawyd y dechreuad cynnar ar y broses o deneuo. Roedd beirniadaeth o ran diffyg gwybodaeth bendant ynglŷn â'r cylch gorchwyl ac aelodaeth y Panel Cyflafareddu ar gyfer yr Adolygiad Gwyddonol.

Roger Cooper
16 Tachwedd 2010